# Magnox
# Cynllun Economaidd-gymdeithasol 2016-21(Cyfamser)










## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid ..... 5
3. Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ..... 5
3.1. Strategaeth Economaidd-gymdeithasol Magnox ..... 5
3.2. Blaenoriaethu ymyriadau ..... 5
Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ..... 6
4. Cyllid ..... 7
**Safleoedd Blaenoriaeth Uchel** ..... 7
4.1. Bradwell ..... 7
4.2. Dungeness A ..... 9
4.3. Hunterston A ..... 13
4.4. Trawsfynydd ..... 15
4.5. Wylfa ..... 19
**Safleoedd Blaenoriaeth Ganolig** ..... 22
4.6. Chapelcross ..... 22
4.7. Hinkley Point A ..... 24
4.8. Winfrith ..... 25
**Safleoedd Blaenoriaeth Isel** ..... 26
4.9. Berkeley ..... 27
4.10. Harwell ..... 27
4.11. Oldbury ..... 28
4.12. Sizewell A ..... 29
5. Cyflyrau Interim/Gofal a Chynnal a Chadw ..... 31
6. Cadw Golwg a Cofnodi ..... 31
7. Cynnydd yn erbyn y targedau yn 2019/20 ..... 31
7.1. Cyflogaeth – gan ffafrio creu swyddi gwerth uwch ..... 31
7.2. Addysg/sgiliau - i gefnogi datgomisiynu a glanhau ac arallgyfeirio i sectorau eraill ..... 31
7.3. Seilwaith economaidd a chymdeithasol – gan gynnwys adfer a gwella’r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol a naturiol ..... 32
7.4. Annog arallgyfeirio – i ddiwydiannau a sectorau eraill, gan gynnwys cefnogaeth i’r gadwyn gyflenwi leol ..... 32
7.5. Targedau ar gyfer y dyfodol Bydd targedau ar gyfer y dyfodol yn cael eu cytuno a’u gosod ar y cyd â’r NDA pan fyddwn yn deall effaith y sefyllfa bresennol yn well a phan fydd cynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol wedieu datblygu. ..... 32

## 1. Cyflwyniad

Ers i'r cynllun diwethaf gael ei gyhoeddi, mae Magnox Limited wedi dod yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i'r NDA, ac mae'n edrych o'r newydd ar ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn ychwanegol, mae'r NDA wedi cynnal adolygiad helaeth o'i strategaeth economaidd-gymdeithasol ac wedi gweithredu system ar draws y Grŵp NDA ar gyfer rheoli gwariant economaidd-gymdeithasol. O ganlyniad, ystyrir y cynllun hwn yn gynllun cyfamser i adrodd ar gynnydd blaenorol ac i osod yr egwyddorion eang y byddwn yn eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod wrth i ni baratoi cynllun ar gyfer ymgynghoriad llawn.

Dywedodd Gwen Parry-Jones, Prif Swyddog Gweithredol Magnox Ltd, wrth feddwl am yr effaith y mae Magnox wedi'i gael ar y cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt a'i etifeddiaeth: "Mae safleoedd Magnox wedi bod yn rhan o'r cymunedau lleol ers degawdau. Maent wedi cyflogi pobl o'r cymunedau, eu hyfforddi a'u hailhyfforddi nhw wrth i dechnoleg ddatblygu ac wrth i'r safonau diogelwch ddod yn fwy a mwy llym. Rwy'n bwriadu parhau â'r berthynas bwysig hon wrth i ni anelu at ddatgomisiynu ein safleoedd mewn ffordd ddiogel wrth ddarparu gwerth am arian i'r cyhoedd.

Eleni, mae pob un ohonom wedi gweld yr effaith y mae'r pandemig Covid-19 wedi'i gael ar unigolion, ar deuluoedd, ar gymunedau ac ar y wlad yn gyfan. Gan gydnabod hyn, penderfynodd Magnox a'r NDA ymrwymo £25,000 ar gyfer pob un o'r cymunedau o amgylch ein 12 safle o'r Cynllun Cyllido Grant Magnox trwy'r awdurdodau lleol i gefnogi'r cymunedau hynny yn eu hymdrechion i ofalu am eu haelodau mwyaf agored i niwed a'u cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn. Bu staff Magnox yn gwirfoddoli, ac fe wnaethom weithio'n gyflym yn gynnar yn ystod y pandemig i roi dros 130,000 o eitemau Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i ysbytai GIG lleol, meddygfeydd, cartrefi gofal a gwirfoddolwyr."

Mae'r Cynllun Magnox yn anelu at adlewyrchu Strategaeth Effaith Cymdeithasol ac Economaidd Lleol 2020 i 2026, sy'n anelu at ystyried cefnogi prosiectau o fewn y themâu canlynol:

- **Economïau cydnerth -** prosiectau neu raglenni sydd wedi'u cynllunio i alluogi ac i gefnogi'r amodau ar gyfer cynnyrch economaidd lleol, cynyddu cynhyrchiant a thwf.
- **Cymunedau sy'n ffynnu -** prosiectau neu raglenni sydd wedi'u cynllunio i alluogi ac i gefnogi'r amodau ar gyfer cydlyniant cymdeithasol, gan gefnogi grwpiau dan anfantais a buddion cymdeithasol eraill.
- **Incwm Cynaliadwy -** mynediad at waith a dyhead i weithio - i wella trwy raglen o addysg, sgiliau, datblygiad personol a gweithgareddau cymorth cyflogadwyedd personol.
- **Twf cynaliadwy -** prosiectau a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar welliannau amgylcheddol a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae'r strategaeth newydd yn cynnig ein bod yn canolbwyntio ein cefnogaeth economaidd-gymdeithasol ar fentrau a fydd yn cael mwy o effaith o amgylch ein safleoedd. Mae rhai o'r rhain yn gysylltiedig â strategaeth eiddo'r NDA ac eraill â strategaethau awdurdodau lleol neu bolisïau BEIS. Mae dull thematig Magnox yn aros yr un fath, ac mae modd grwpio'r prosiectau o dan y themâu allweddol hyn:

- Sgiliau, hyfforddiant ac addysg
- Defnydd tir, ailddefnyddio ac eiddo

- Ynni adnewyddadwy/ynni carbon isel
- Amgylchedd busnes a chymorth i fusnesau bach
- Seilwaith

Mae'r themâu hyn yn rhoi ffocws ac eglurder i'r math o brosiectau rydym yn bwriadu eu cefnogi, yn arbennig y prosiectau mawr. Ond ni ddylai atal prosiectau bach, lleol, o'r gwaelod i fyny a rhai sy'n cael eu harwain gan y gymuned, a allai fod yn disgyn y tu allan i'r themâu hyn.

Bydd angen i brosiectau arfaethedig ddangos gwerth am arian i'r trethdalwyr a dangos ystyriaeh i'r canlynol:

- **Economi** - y defnydd lleiaf o adnoddau i gyflawni canlyniadau penodol;
- **Effeithiolrwydd** - y berthynas rhwng allbynnau, e.e. Gwasanaethau, a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu;
- **Effeithlonrwydd** - i ba raddau mae yr amcanion yn cael eu cyflawni, a'r berthynas rhwng effeithiau a fwriedir ar gyfer gwasanaeth, a'r effeithiau gwirioneddol.

Mae manylion ynghylch beth allai'r rhain eu cynnwys ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/publications/one-nda-local-social-and-economic-impact-practitioners-guidance-grant-funding

Bydd y cynllun economaidd-gymdeithasol hwn yn parhau i gefnogi gweledigaeth a blaenoriaethau thematig yr NDA drwy brosesau a system rheoli grantiau newydd a fydd gan nodau a chanlyniadau sydd wedi'u diffinio yn fwy clir.

Er nad ydym yn uniongyrchol atebol am adfywio yn yr ardaloedd o amgylch ein safleoedd, mae'r NDA a Magnox yn cydnabod y rôl bwysig rydym yn ei chwarae wrth gynorthwyo'r cymunedau a'r asiantaethau sy'n bartneriaid yn yr ardaloedd i ddatblygu cynlluniau a gweithredu mentrau sy'n helpu i leihau effaith datgomisiynu.

**Ymrwymiadau economaidd-gymdeithasol Magnox:**

- Cefnogi strategaeth yr NDA i ystyried canlyniadau economaidd-gymdeithasol ei gynlluniau
- Cefnogi amcanion a pholisi economaidd-gymdeithasol yr NDA drwy ymgysylltu â'r NDA, Awdurdodau Lleol, asiantaethau datblygu a rhanddeiliaid allweddol eraill
- Paratoi a chyflawni cynllun datblygu economaidd-gymdeithasol treigl mewn partneriaeth â'r NDA, gan ymgynghori â rhanddeiliaid
- Bydd y cynllun yn ystyried: cadw sgiliau lleol, trosglwyddo'r gweithlu, cynlluniau prentisiaid, sicrhau'r budd mwyaf i'r gadwyn gyflenwi/busnesau bach a chanolig, ymgysylltu â sefydliadau addysgol lleol, ailddefnyddio tir
- Cyhoeddi adolygiad blynyddol o berfformiad economaidd-gymdeithasol o'i gymharu â'r cynllun, ac o'i gymharu â thargedau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS). Yn y flwyddyn gyfredol, mae ymrwymo arian i gefnogi cymunedau lleol sy'n rheoli materion Covid-19 yn golygu y bydd cefnogaeth ehangach yn gyfyngedig. Ein bwriad yw blaenoriaethu'r gefnogaeth hon a helpu prosiectau presennol drwy'r cyfnod anodd hwn.
- Blaenoriaethu ymyriadau economaidd-gymdeithasol: bod yn gydnaws â'r amserlen gofal a chynnal a chadw a'r prif amodau economaidd-gymdeithasol.

## 2. Ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid

Oherwydd yr amgylchiadau annisgwyl a datblygiadau parhaus o gynlluniau ar gyfer dyfodol Magnox, dylid ystyried y cynllun hwn fel cynllun cyfamser i roi gwybod i'n rhanddeiliaid am ein bwriad parhaus, a bwriad yr NDA, i gefnogi'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt.

Rydym yn disgwyl y bydd ymgynghoriad llawn yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## 3. Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox

### 3.1. Strategaeth Economaidd-gymdeithasol Magnox

Mae ein strategaeth a'n hamcanion economaidd-gymdeithasol yn rhaeadru o Strategaeth Economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) i'r safleoedd, gan sicrhau cysondeb negeseuon a dulliau gweithredu. Mae Cynllun Cyllido Grant newydd Magnox ar gael ers 1 Gorffennaf 2020, a dyma'r mecanwaith ar gyfer rheoli ceisiadau grant sy'n cefnogi'r strategaeth a'r amcanion. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn ar gael ar wefan Magnox**.**

**Strategaeth economaidd-gymdeithasol:**

Mae prif feysydd ein strategaeth economaidd-gymdeithasol drosfwaol yn cynnwys:

- Cydnabod gofynion pob safle unigol wrth roi'r canllawiau ar waith a dysgu o brofiad;
- Adeiladu ar gysylltiadau â rhanddeiliaid a mentrau economaidd-gymdeithasol sy'n bodoli eisoes;
- Gwella amrywiaeth economaidd a chreu cyfleoedd gwaith newydd lle bo hynny'n bosib; a
- Sicrhau gwerth am arian drwy ddefnydd wedi'i dargedu o gyllid ar gyfer mentrau economaidd-gymdeithasol sy'n cynnig yr effaith fwyaf am y gost leiaf ar safleoedd sydd wedi'u blaenoriaeth, gan nodi y rhoddir ystyriaeth ddyladwy a phriodol i gynlluniau sy'n cael eu dwyn ymlaen o safleoedd eraill.

**Mae ein cynlluniau'n ystyried:**

- Cynlluniau datblygu economaidd-gymdeithasol lleol sy'n bodoli'n barod;
- Y prif amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn ardal pob safle Magnox;
- Polisïau perthnasol y Llywodraeth, gan gynnwys polisïau yng Nghymru a'r Alban;
- Canlyniadau ymgynghori/ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol;
- Datblygu cynllun prentisiaid;
- Gwneud y mwyaf o botensial/gallu cadwyni cyflenwi lleol o amgylch ein safleoedd;
- Ymgysylltu â sefydliadau addysg lleol, cefnogi cwricwla a codi dyheadau;
- Argaeledd tir cyfagos sy'n eiddo i'r NDA i'w werthu er budd economaidd-gymdeithasol

### 3.2. Blaenoriaethu ymyriadau

Mae'r cynllun datblygu economaidd-gymdeithasol treigl yn darparu sail resymegol ar gyfer blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod ymyriadau economaidd-gymdeithasol yn cael eu targedu ble gallant gael yr effaith fwyaf, eu bod yn cynnig y gwerth gorau am arian a'u bod yn

gynaliadwy yn y tymor hir. Gan ystyried blaenoriaethau thematig yr NDA, mae’r safleoedd wedi cael eu blaenoriaethu ar hyn o bryd yn ôl y ffactorau canlynol:

- Proffil y gweithlu;
- Dyddiadau trosglwyddo o ddatgomisiynu i ofal a chynnal a chadw;
- Canlyniadau Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a chyllid uniongyrchol gan yr NDA sydd wedi’i fuddsoddi hyd yma;
- Ffactorau allanol – cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer mewnfuddsoddiad, prosiectau gorsafoedd niwclear newydd a chylchredau oes chwaer safleoedd niwclear;
- Yr amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn yr ardal o gwmpas.

Bydd y flaenoriaeth a roddir i safleoedd yn cael ei hadolygu’n rheolaidd er mwyn rhoi sylw i ffactorau cyfnewidiol.

Blaenoriaethu safleoedd yw un ffactor a fydd yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyllid. Mae’n bwysig nodi, fodd bynnag, y byddai prosiect trawsnewidiol cadarn sydd yn bodloni ein meini prawf, yn cael ei gyflwyno i Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox, yn cael ystyriaeth ddyladwy yn ôl teilyngdod, ochr yn ochr â cheisiadau eraill, waeth beth fo blaenoriaeth y safle.

Mae'r ystyriaethau hyn wedi ein harwain ni i flaenoriaethu'r safleoedd Magnox fel a ganlyn:

### Ardaloedd/safleoedd blaenoriaeth uchel:

- Bradwell (Gofal a Chynnal a Chadw)
- Dungeness A
- Hunterston
- Trawsfynydd
- Wylfa

### Ardaloedd/safleoedd blaenoriaeth ganolig:

- Chapelcross
- Hinkley Point A
- Winfrith

### Ardaloedd/safleoedd blaenoriaeth isel:

- Berkeley
- Harwell
- Oldbury
- Sizewell A




### Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox

Mae Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox yn darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau sydd o fudd i fywyd cymdeithasol neu economaidd cymunedau, er mwyn cefnogi cyfrifoldebau’r NDA dan y Ddeddf Ynni (2004) i leihau effaith economaidd-gymdeithasol ei raglen waith yn yr ardaloedd lle mae’n gweithio. Mae gan y cynllun dri nod o ran cyllido:

1. Bod yn gymydog da
2. Helpu i greu cymunedau cynaliadwy
3. Cefnogi prosiectau trawsnewid sy’n lleihau effaith datgomisiynu safleoedd Magnox.

Caiff cyllid ei flaenoriaethu tuag at nodau 2 a 3 lle mae modd cyflawni’r budd economaidd-gymdeithasol mwyaf cynaliadwy.

## 4. Cyllid

Mae Magnox Ltd a’r NDA yn gweithio gyda’i gilydd er mwyn rheoli portffolio cyllid sy’n werth dros £1 miliwn bob blwyddyn ariannol. Mae cyllid ar gael drwy raglen dreigl i gefnogi ein hamcanion ar dair lefel:

1. Hyd at £1,000 ar gyfer prosiectau bach sy’n agos at safleoedd Magnox (cyllid Cymydog Da)
2. Hyd at £10,000 o wariant cyfalaf tuag at brosiect cynaliadwy
3. Dros £10,000 i gefnogi prosiectau mawr sy’n gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau effaith datgomisiynu yn yr ardaloedd o amgylch safleoedd Magnox.

Mae hen borth economaidd-gymdeithasol Magnox wedi’i atal ar gyfer ceisiadau newydd ond mae ar gael at ddibenion adrodd yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am amoday ar gyfer cyllid a’r cynllun newydd ar draws grwpiau’r NDA ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/organisations/magnox-ltd

## Safleoedd Blaenoriaeth Uchel

### 4.1. Bradwell

Daeth Safle Bradwell y cyntaf o fflyd adweithyddion Magnox i gyrraedd ei Gyflwr Cyfamser. Mae’r gwaith o ddatgymalu’r safle wedi’i orffen. Fodd bynnag, nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i leihau neu dynnu’r cymorth Economaidd-gymdeithasol sydd ar gael i’r safle gan Magnox.

**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
18 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol**
Cyngor Dosbarth Maldon
Cyngor Sir Essex
Sense of Place
Cyngor Cyswllt Cymunedol Lleol Bradwell (LCLC)



### Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £691,194

### Prosiectau a gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | Cyngor Tref West Mersea | Parc Hamdden Mersea Island | £50,000 |
| | | Is-gyfanswm | £50,000 |
| 2013/14 | Cyngor Dosbarth Maldon | Cynllun Gweithredu Economaidd-gymdeithasol Bradwell (dros dair blynedd) | £150,000 |
| | | Is-gyfanswm | £150,000 |
| 2015/16 | Siop Gymunedol Bradwell-on-Sea | Siop Gymunedol Bradwell-on-Sea (gosodiadau a chyfarpar) | £25,000 |
| | | Is-gyfanswm | £25,000 |
| 2016/17 | Awyrenfa'r Rhyfel Mawr, Stow Maries | Darganfod Bywyd Gwyllt yn Awyrenfa'r Rhyfel Mawr, Stow Maries | £10,000 |
| | Cyngor Dosbarth Maldon | Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Gwaddol Bradwell (dros ddwy flynedd) | £33,000 |
| | | Is-gyfanswm | £43,000 |
| 2017/18 | Cyngor Dosbarth Maldon | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Canolfan Menter Busnes yn Ardal Maldon | £60,000 |
| | | Is-gyfanswm | £60,000 |
| 2018/19 | Bwrdd Naws am Le (ar y cyd â Chyngor Dosbarth Maldon) | Cyllid ar gyfer Cydlynydd Naws am Le (£40,000 y flwyddyn am dair blynedd) | £120,000 |
| | | Is-gyfanswm | £120,000 |
| 2019/20 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | **Cyfanswm** | **£448,000** |

### Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2019/20:

Y prif brosiect yw ariannu Cydlynydd ar gyfer y fenter Naws am Le, a hynny am dair blynedd. Mae'r fenter hon wedi datblygu drwy'r gymuned fusnes ar y cyd â Chyngor Dosbarth Maldon. Y cynllun yw manteisio ar yr amgylchedd lleol i wneud yr ardal yn gyrchfan i dwristiaid ac yn lle i fusnesau fuddsoddi a thyfu. Dyma nodau'r tîm Naws am Le:

- Creu cyfres o ddigwyddiadau canolog
- Sicrhau rhagor o ymrwymiad gan fusnesau
- Gwella'r profiad i ymwelwyr
- Cynnwys busnesau yn y gwaith o dyfu'r stryd fawr a'r economi leol
- Gweithio gyda'r ysgolion lleol i ddatblygu cyfleoedd dysgu i ddisgyblion
- Edrych ar anghenion busnesau lleol ac ar y prentisiaethau pwrpasol sydd ar gael yn yr ardal leol mewn amrywiaeth o feysydd

- Datblygu'r cynnig hyfforddiant mewn cysylltiad a'r diwydiant gofal fel dewis gyrfa

Mae Cydlynydd Naws am Le wedi'i benodi yn ddiweddar ac mae gwaith wedi bod yn mynd ymlaen tu ôl i'r llenni gydag unigolion a sefydliadau busnes er mwyn cael gwybod eu barn er mwyn gallu cynllunio ymlaen llaw. Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar gwmnïau ar bob lefel ar draws yr ardal, ac mae'r Bwrdd Naws am Le wedi bod yn canolbwyntio ar gefnogi busnesau lleol ac ar ystyried opsiynau arloesol er mwyn datblygu ffordd newydd o weithio a'i gynnig i'r gymuned leol. Mae'r cyllid tair blynedd yn parhau yn amodol ar gyrraedd y targedau sydd wedi eu gosod.

Mae Cyngor Dosbarth Maldon wedi cael £5,148 tuag at sicrhau bod Tref Maldon yn dref sy'n darparu ar gyfer pobl sydd ag anableddau synhwyraidd a chorfforol trwy gael Nod Siarter Synhwyraidd a chreu canllaw. Eleni roedd tri buddiolwr o dan y cynllun Cymydog Da a dderbyniodd £2,154 ar gyfer becyn pêl-droed newydd, uwchdaflunydd a sgrin, a chefnogaeth tuag at gyfarpar gweithgareddau i blant.
Mae'r prosiectau a gefnogwyd hefyd wedi llwyddo i sicrhau £22,796 o arian cyfatebol.

| SAFLE BLAENORIAETH UCHEL - Bradwell |
| --- |
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21** |
| Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dosbarth Maldon a'r Bwrdd Naws am Le, ac eraill, i liniaru'r effaith ar yr economi leol ac effaith colli swyddi yn Sfle Bradwell lle bo'n bosibl. |

## 4.2. Dungeness A



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
151 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol**
Cyngor Sir Caint
Cyngor Dosbarth Folkestone a Hythe
Cyngor Bwrdeistref Ashford
Cyngor Dosbarth Rother
Cyngor Sir Dwyrain Sussex
Grŵp Partneriaeth Romney Marsh (RMPG)
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Dungeness (SSG)
Tîm Cymunedau Arfordirol New Romney
Cwmni Datblygu Gofodol Dwyrain Caint (EKSDC)

**Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2020: £746,488**

**Prosiect sy’n cael ei Ariannu gan yr NDA:** Canolfan Gyflogaeth Romney Marsh £705,238 (dros bum mlynedd) i gael ei adeiladu yn New Romney ar Ystâd Ddiwydiannol Mountfield Road. Cafodd y prosiect hwn arian gyfatebol o £735,000 yr un gan Gyngor Dosbarth Folkestone a Hythe a Chwmni Datblygu Gofodol Dwyrain Caint. Bydd y prosiect hwn yn creu cyfleoedd cyflogaeth, prentisiaethau, sesiynau hyfforddiant busnesau lleol a mannau gwaith hyblyg modern i ddenu busnesau newydd i’r ardal yn ogystal â chynyddu lle i fusnesau dyfu.

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £1,571,357**

**Prosiectau y gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012:**

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2013/14 | Cyngor Sir Caint | Cronfa Marsh Million | £500,000 |
| | Partneriaeth Romney Marsh | Cydlynydd Romney Marsh (dros dair blynedd) | £120,000 |
| | Cyngor Dosbarth Shepway | Unedau Hybu Busnesau Newydd Romney (dros dair blynedd) | £99,709 |
| | | Is-gyfanswm | £719,709 |
| 2014/15 | The Marsh Academy | Prentisiaethau yn yr Ardal – Roedd hwn yn brosiect tair blynedd am £43,000 a chafwyd blwyddyn gyntaf lwyddiannus. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau a materion sylweddol nad oedd modd eu goresgyn, nid oedd yn bosibl i’r prosiect symud ymlaen y tu hwnt i’r pwynt hwn, gan adael cyfanswm £25,660 heb ei wario. | £17,340 |
| | | Is-gyfanswm | £17,340 |
| 2015/16 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2016/17 | Partneriaeth Romney Marsh | Cydlynydd Romney Marsh (cyllid 3 blynedd o £20,000 y flwyddyn) | £60,000 |
| | Cyngor Dosbarth Shepway | Astudiaeth Ddichonoldeb Mountfield Road £35,000 a Thîm Cymunedau Arfordirol Cyngor Tref New Romney £5,000 | £40,000 |
| | CineMarsh | I gefnogi creu sinema yn New Romney | £50,000 |
| | | Is-gyfanswm | £150,000 |
| 2017/18 | Canolfan Adnoddau Romney | Hyfforddi oedolion (19+) mewn Mathemateg, Saesneg, TGCh ac NVQs Lefelau 2 a 3 | £38,260 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Is-gyfanswm | £38,260 |
| 2018/19 | Strange Cargo CIC | Everywhere Means Something to Someone. People's Guidebook for to the Romney Marsh (arian cyfatebol wedi ei sicrhau 2020) | £10,000 |
| | | Is-gyfanswm | £10,000 |
| 2019/20 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| | | **Cyfanswm** | **£935,309** |

**Y prif brosiectau a chynlluniau 2019/20:**

- **Grŵp Partneriaeth Romney Marsh (RMP):** Mae RMP yn dal i weithio tuag at gyflawni Cynllun Economaidd-gymdeithasol Romney Marsh sy'n canolbwyntio ar y canlynol:
    - Tynnu sylw at rai o heriau economaidd a chymdeithasol sylweddol yr ardal
    - Dod â phobl at eu gilydd a gwneud y gorau o'r prosiectau sy'n cael eu cyflawni'n barod ar y Romney Marsh
    - Cynnwys pobl leol a rhoi mwy o ran iddynt chwarae yn eu cymuned leol a'u heconomi leol
    - Darparu fframwaith a strategaeth i ddod a cyllid newydd i'r ardal drwy brosiectau a dulliau gweithredu newydd.

  Mae aelodau'r bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Sir Caint, Cyngor Dosbarth Folkestone a Hythe, Cyngor Bwrdeistref Ashford (ABC) a Chynghorau Dosbarth Rother (RDC), Cyngor Sir Dwyrain Sussex (ECC), Grŵp Rhanddeiliaid Safle Dungeness, yr NDA, tîm Cymunedau Arfordirol New Romney a Magnox ymysg eraill.

  Ariennir swydd y cydlynydd gan Magnox, Cyngor Dosbarth Folkestone a Hythe, Cyngor Bwrdeistref Ashford, Cyngor Dosbarth Rother a Chyngor Sir Dwyrain Sussex. Dyma flwyddyn olaf y prosiect tair blynedd hwn – ac mae wedi cael ei ymestyn tan fis Medi oherwydd bod y swyddwedi bod yn wag yn ystod y cyfnod.

- Mae **Cronfa Marsh Million** ar gau ar gyfer ceisiadau cyffredinol ar hyn o bryd. Mae Bwrdd Marsh Million yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu'r sefyllfa ynghylch ad-daliadau ac yn edrych ar gyfleoedd a allai fod o fudd i'r ardal, yn unol â gwaith Grŵp yr RMP.

- **Ystâd Ddiwydiannol Mountfield Road, New Romney** Trafodwyd y cynigion ar gyfer datblygu'r prosiect hwn, fe ymgynghorwyd arnynt as yn dilyn hynny nodwyd gyllid o dros £2.1m, fe wnaethpwyd cais amdano, ac y cytunwyd. Bydd y prosiect hwn yn dechrau yn yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod.

- **CineMarsh.** Roedd y prosiect hwn ar gampws y Marsh Academy i fod i gael ymddangos ei 'premiere' cyntaf yn mis Ebrill, ond oherwydd y cyfnod clo a gorfod cadw pellter cymdeithasol, ni ddigwyddodd hyn. Pan fydd y sefyllfa'n caniatáu a bod yr ased cymunedol hwn yn gallu agor ei ddrysau, disgwylir iddo gynnig cyflogaeth, cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith yn ogystal â chynnig sinema 50 sedd o'r radd flaenaf i New Romney a'r cylch.

Mae chwe sefydliad cymunedol wedi elwa o arian Cymydog Da gan Magnox, gan gynnwys prynu sawl manicin CPR, gweithdai amrywiol - gan gynnwys gweithdai gwneud llusernau, prynu gemau bwrdd traddodiadol ag electronig i glwb ieuienctid a hefyd dyfais electronig ac ategolion i sicrhau cefnogaeth lleol ar draws y Romney Marsh trwy MIND. Yn gyfangwbl, mae'r prosiectau a gafodd gymorth gan Magnox wedi llwyddo i sicrhau £39,426 o arian cyfatebol.

| SAFLE BLAENORIAETH UCHEL – Dungeness |
|---|
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21**<br>Parhau i weithio gyda Grŵp Partneriaeth Romney Marsh yn y dyfodol.<br>Monitro ac asesu effaith prosiectau mwy i werthuso eu heffeithiolrwydd.<br>Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid yn y dyfodol i liniaru'r broses o gau'r safle. |

## 4.3. Hunterston A



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
132 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol**
Llywodraeth yr Alban
Cyngor Gogledd Swydd Aeron (North Ayrshire)
Scottish Enterprise
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Hunterston (SSG)
Grŵp Llywio Adfywio Hunterston Gogledd Swydd Aeron (North Ayrshire)

**Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2019: £250,000**

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-19: £1,340,760**
**Prosiectau y gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012:**

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | Canolfan Gymunedol Gorllewin Kilbride | Datblygu’r Adain Orllewinol | £20,000 |
| | | Is-gyfanswm | **£20,000** |
| 2013/14 | Swyddfeydd ger y Cei yn Ardrossan | Swyddfeydd ger y Cei yn Ardrossan | £375,000 |
| | | Is-gyfanswm | **£375,000** |
| 2014/15 | Y Cyngor Astudiaethau Maes | Gorsaf Bioleg y Môr yn Millport | £300,000 |
| | | Is-gyfanswm | **£300,000** |
| 2015/16 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | **£0** |
| 2016/17 | Castell Portencross | Darparu cyfleusterau toiledau ar gyfer staff ac ymwelwyr | £10,000 |
| | | Is-gyfanswm | **£10,000** |
| 2017/18 | | Dim ceisiadau | **£0** |
| | | Is-gyfanswm | **£0** |
| 2018/19 | Canolfan Gymunedol Gorllewin Kilbride | Rhaglen Mentora Artistiaid sy’n rhoi cyfle i 10 cyfranogwr fentro mewn busnes. | £37,000 |
| | | Is-gyfanswm | **£37,000** |
| 2019/20 | Coleg Gogledd Aeron | Cyllid dros ddwy flynedd ar gyfer Canolfan Sgiliau Dyfodol Gogledd Aeron ar Gampws Kilwinning. | **£499,999** |
| | | Is-gyfanswm | **£499,999** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Cyfanswm** | **£1,241,999** |

**Prif brosiectau a chynlluniau 2019/20:**


- Bydd **Coleg Gogledd Aeron** yn cael £499,999 dros y ddwy flynedd nesaf tuag at Ganolfan Sgiliau Dyfodol ar Gampws Kilwinning pan fydd yr arian cyfatebol wedi ei gadarnhau. Fydd y priosect yma yn cyflwyno cwricwlwm ym maes Peirianneg, Adeiladu a Thechnolegau CAMPUS ar gyfer cyflogwyr, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a myfyrwyr y coleg. Rhagdybir y bydd y Ganolfan, ar ôl ei gwblhau, yn creu dwy swydd newydd, yn diogelu 11 o swyddi, yn creu cyfle i 14 prentis a hyd at 200 o fyfyrwyr i astudio bob blwyddyn.

- Dyfarnwyd £3,125 i **Gerddi Organig Largs** ar gyfer ail gam eu prosiect. Mae gwirfoddolwyr o amrywiaeth o grwpiau cymunedol wedi gweithio'n galed i drawsnewid y rheilffordd nas defnyddir yn ardd gymunedol hyfryd ar thema Geltaidd a Llychlynnaidd, gan greu 100 o gyfleoedd i wirfoddoli a 40 o gyfleoedd am hyfforddiant.

Rhoddwyd cymorth i 12 o ysgolion lleol yn 2019/20. Mae tri clwb chwaraeon, sef Clwb Bowlio Dan-do Ardrossan, Academi Pêl-droed Cymunedol Kilwinning ac Academi Dawns CS, wedi elwa ar gyllid Cymydog Da er mwyn cael pecyn chwareon a chyfarpar newydd. Mae'r prosiectau a gefnogwyd hefyd wedi llwyddo i sicrhau £1,012,738 o arian cyfatebol.

| **SAFLE BLAENORIAETH UCHEL – Hunterston A** |
|---|
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21:**<br>Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid yn y dyfodol i liniaru'r broses o gau'r safle. |

## 4.4. Trawsfynydd



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
148 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol**
Llywodraeth Cymru
Cyngor Gwynedd
Menter Môn
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Grŵp Trosolwg Trawsfynydd
Traws-Newid
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Bwrdd Ardal Fenter Eryri
Grŵp Llandrillo Menai
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd (SSG)

**Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2019: £2,750,500**

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £1,339,340**

**Prosiectau y gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012:**

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | Coleg Meirion Dwyfor | CaMDA | £360,000 |
| | | Is-gyfanswm | £360,000 |
| 2013/14 | Antur Stiniog | Y Siop, Blaenau Ffestiniog | £40,000 |
| | Gwesty Seren Cyf | Gwesty Seren, Llan Ffestiniog | £50,000 |
| | Cyngor Gwynedd | Llwyddo'n Lleol (Ynys Môn a Gwynedd) | £36,000 |
| | Urdd Gobaith Cymru | Eisteddfod Genedlaethol 2014, Meirionnydd | £35,000 |
| | | Is-gyfanswm | £161,000 |
| 2014/15 | Canolfan Gymunedol Bryncrug | Canolfan Fusnes Bryncrug | £14,459 |
| | Cymdeithas Bysgota Prysor | Datblygu Llyn Trawsfynydd Cam II | £25,825 |
| | | Is-gyfanswm | £40,284 |
| 2015/16 | Cellb | Prosiect sinema ddigidol | £21,280 |
| | Clwb Pêl-droed Porthmadog | Academi Sgiliau'r Traeth | £40,373 |
| | | Is-gyfanswm | £61,653 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | Partneriaeth Awyr Agored | Prosiect 3 blynedd i annog menywod a merched i fentro i'r sector awyr agored | £30,000 |
| | Grŵp Llandrillo Menai | Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuenctid 2 flynedd | £15,000 |
| | | Is-gyfanswm | £45,000 |
| 2017/18 | Cylch Y Llan | Gweddnewid eglwys restredig Gradd II yn ganolfan dreftadaeth a hostel dwristiaeth (yn dibynnu ar sicrhau arian cyfatebol). Cafodd yr Ymddiriedolaeth £50,000 yn 2017 tuag at y prosiect gwerth £1.2 miliwn. *Yn anffodus, ni lwyddodd y prosiect i sicrhau arian cyfatebol ond bydd yn cael ei annog i wneud cais arall am gyllid Magnox os bydd yn sicrhau cyllid o ffynhonnell arall yn y dyfodol.* | £0 |
| | Cyngor Gwynedd, STEM y Gogledd | Prosiect pedair blynedd i ddatblygu Canolfan STEM bwrpasol i ategu gwasanaethau prif ffrwd, gyda chefnogaeth cydlynwyr a mentoriaid STEM. | £201,000 |
| | | Is-gyfanswm | £201,000 |
| 2018/19 | Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid | Cafodd Prosiect y Ddraig Goch ei sefydlu i ymestyn y rheilffordd o ymyl Llyn Tegid i ganol y dref, gan ddarparu gorsaf drenau newydd ac atyniad i ymwelwyr. | £23,000 |
| | Y Bartneriaeth Awyr Agored | Rhaglen bum mlynedd yn Agor Drysau i'r Awyr Agored i Grwpiau sy'n cael eu Tangynrychioli: gwella mynediad i unigolion ag anableddau a phroblemau iechyd meddwl. | £180,000 |
| | | Is-gyfanswm | £203,000 |
| 2019/20 | Menter Môn, Arloesi Gwynedd Wledig | Cyflwynwyd £285,000 i Arloesi Gwynedd Wledig er mwyn i'r cynllun peilot £5m a'r rhaglen fentrau barhau hyd 2023. Derbyniodd y prosiect £285,000 yn uniongyrchol gan yr NDA dros dair blynedd ar gyfer y cam cyntaf llwyddiannus. | £285,000 |
| | | Is-gyfanswm | £285,000 |
| | | **Cyfanswm** | **£1,356,847** |

**Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2019/20:**

- **Y Bartneriaeth Awyr Agored:** Mae Magnox wedi ymrwymo £180,000 tuag at barhad Rhaglen £1.5m Llwybrau i Waith am pum mlynedd (a gafodd ei ariannu yn wrieddiol gan yr NDA am £169k yn 2012). Gan weithio gyda phobl leol â phroblemau iechyd meddwl ac unigolion ag anableddau, mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn parhau i ddileu y rhwystrau sydd yn bodoli i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector awyr agored. Bwriedir cyllid Magnox ar gyfer costau refeniw blynyddol ar gyfer Swyddog Cynhwysiant, Swyddog Llwybrau i Waith a Swyddog Gwirfoddoli amser llawn. Bellach yn ei ail flwyddyn, mae'r prosiect wedi cyrraedd yr holl dargedau y cytunwyd arnynt, gyda dros 1,600 o sesiynau blasu gweithgareddau awyr agored i unigolion ag anableddau, 35 o gyfleoedd cyflogaeth, 260 o gyfleoedd i wirfoddoli a 1,665 o oriau wedi eu hymrwymo i gefnogi pobl di-waith i gael gwaith.

- **STEM Gogledd:** Cafodd Prosiect STEM Gogledd gefnogaeth gan Magnox gyda chyfraniad o £201,000 dros bedair blynedd tuag at y prosiect £2m.
  Ar ôl cwblhau'r drydedd flwyddyn, mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn dda gyda 17 ysgol bellach yn cymryd rhan. Mae tri mentor yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion yn Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Mae digwyddiadau yn ymwneud â STEM yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ogystal a ymgysylltu â chyflogwyr lleol. Mae'r Canolbwynt pwrpasol a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol bellach ar gael i'w defnyddio gan ddisgyblion a mentoriaid.

  Cafodd lansiad swyddogol ei gynnal ym Mharc Gwyddoniaeth MSParc fis Hydref 2019, gyda Gwen Parry-Jones, Prif Swyddog Gweithredol Magnox yn siaradwr gwadd, ynghyd â Kirsty Williams, AC, Y Gweinidog Addysg.

- **Arloesi Gwynedd Wledig:** Dyfarnwyd £285,000 i Arloesi Gwynedd Wledig er mwyn i'r cynllun peilot £5m a'r rhaglen fentrau barhau hyd 2023.
  Yn yr ail gam hwn, mae'r cynllun menter gymunedol wledig ar y ffordd i gyflawni £8M o fudd economaidd, 10 busnes newydd a 30 o swyddi newydd dros y tair blynedd nesaf.
  Caiff gweithgareddau eu cynnal ar sail treialu, fel y gall prosiectau llwyddiannus gael eu ailadrodd mewn ardaloedd eraill o'r sir. Derbyniodd y prosiect £285,000 yn uniongyrchol gan yr NDA yn 2016 ar gyfer cam un.

Yn ystod 2019/20, mae Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, Ysgol Treferthyr, Cricieth ac Ysgol Talsarnau i gyd wedi elwa o arian ar gyfer offer addysg awyr agored o gyllid lefel Cymydog Da. Mae nifer o sefydliadau wedi elwa o'r arian sydd wedi arwain at greu mwy na 560 o gyfleoedd hyfforddiant sgiliau. Roedd y cyfleoedd hyn yn cynnwys Clocswyr Tegid ar gyfer clocsiau plant wedi eu gwneud hefo llaw; cafodd Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog £2,016 i brynu cyfarpar ffilmio a phodlediadau i hyfforddi 30 o unigolion ar gyfer defnydd cymunedol; gafodd Grŵp Mamaliaid Gogledd Cymru arian i gynnal arolwg ar ystlumod ac fe gafodd Antur Stiniog Cyf. £2,640 i ariannu gwirfoddolwyr â chymwysterau hyfforddi beicio. Mae'r prosiectau a gefnogwyd hefyd wedi llwyddo i sicrhau £517,414 o arian cyfatebol.

| SAFLE BLAENORIAETH UCHEL – Trawsfynydd |
| --- |
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21:**<br>Gweithio gyda Chyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol ynglŷn ag ymyriadau economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru er mwyn lleihau effeithiau gorffen gweithio yn Nhrawsfynydd. |

## 4.5. Wylfa



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
251 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol**
Llywodraeth Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn
Menter Môn
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Grŵp Llandrillo Menai
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa (SSG)

**Cyllid Economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2020: £6,915,000, gan gynnwys £1,045,000 ychwanegol yn 2019/20:**
£400,000 Datblygu Ynni'r Llanw Menter Môn Morlais (dros dwy flynedd).
£495,000 Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn (dros dair blynedd).
£150,000 CIC Cemaes, Prosiect Capel Bethlehem.

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £1,260,771**

**Prosiectau y gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012**

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | Cyngor Sir Ynys Môn | Prentisiaid Ynys Ynni | £16,000 |
| | | Is-gyfanswm | £16,000 |
| 2013/14 | Cymunedau yn Gyntaf Môn | Rhaglen Sgiliau Saernïaeth yr Academi Hyfforddiant Galwedigaethol | £140,533 |
| | Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru | Ysgol y Môr Cam II (Môn a Gwynedd) | £32,970 |
| | | Is-gyfanswm | £173,503 |
| 2014/15 | Cyngor Sir Ynys Môn | Gŵyl Feicio Ynys Môn | £60,000 |
| | Menter Mechell | Siop Gymunedol a Swyddfa Bost Llanfechell | £21,754 |
| | | Is-gyfanswm | £81,754 |
| 2015/16 | Maes Sioe Amaethyddol Môn | Gwelliannau seilwaith | £40,000 |
| | Menter Môn Morlais | Datblygu Ynni'r Llanw | £300,000 |
| | Cymunedau yn Gyntaf Môn | Cymunedau yn Gyntaf Môn - Rhaglen Sgiliau Gyrru a Chanolfan Profi Sgiliau Adeiladu | £99,282 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Is-gyfanswm | £439,282 |
| 2016/17 | Clwb Gymnasteg Gwynjim | Prynu cyfarpar ar gyfer cyfleuster newydd. | £32,000 |
| | Yr Eisteddfod Genedlaethol | Y Pafiliwn Gwyddoniaeth yn ystod wythnos yr ŵyl | £30,000 |
| | Cyngor Sir Ynys Môn (Rhaglen Ynys Ynni) | Seilwaith strategol Cam 3 | £100,000 |
| | GeoMôn - Mapio Daeareg De Ynys Môn | Prosiect mapio daeareg tair blynedd | £10,500 |
| | | Is-gyfanswm | £172,500 |
| 2017/18 | Cwmni Buddiannau Cymunedol Cemaes | Gweddnewid Capel Bethlehem, Cemaes, yn fwyty ar ffurf ysgol cogyddion gyda lle i 100 o bobl fwyta a chanolfan ymwelwyr bâd achub Charles Henry Ashley, i gynnwys sinema 70 sedd (yn dibynnu ar sicrhau arian cyfatebol). | £150,000 |
| | Cymunedau yn Gyntaf Môn | £300,000 wedi'i ddyfarnu dros 3 blynedd - costau'r Academi i parhau i gyflawni gwasanaethau'r academi, tra'n prynu eiddo newydd ac yn symud yno er mwyn dod yn hunangynhaliol. Dwy swydd wedi'u diogelu, 40 o swyddi anuniongyrchol wedi'u creu a dros 275 o gyfleoedd hyfforddi. | £300,000 |
| | | Is-gyfanswm | £450,000 |
| 2018/19 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2019/20 | Ymddiriedolaeth Colofn Ynys Môn | Mae Ymddiriedolaeth Colofn Ynys Môn yn gobeithio adfer Colofn y Marcwis sy'n rhestredig Gradd II* fel atyniad i dwristiaid ac ailfodelu'r bwthyn fel caffi a chanolfan addysg i ymwelwyr. Mae Magnox wedi ymrwymo £70,000 o arian, yn dibynnu ar sicrhau arian cyfatebol. | £70,000 |
| | | Is-gyfanswm | £70,000 |
| | | **Cyfanswm** | **£1,403,039** |

**Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2019/20:**

- **Cymunedau yn Gyntaf Môn:** Derbynwyd £300,000 dros dair blynedd i barhau â darparu'r Academi yn llwyddiannus wrth adleoli i'r safle newydd yng nghanol tref Caergybi, ac adnewyddu'r swyddfeydd. Mae arian Magnox wedi diogelu dwy swydd yn flynyddol, sef Rheolwr Cyflenwi a chydlynydd Tîm Hyfforddi. Yn 2019/20, sef yr ail flwyddyn, cafodd 566 o unigolion gefnogaeth drwy'r gwasanaethau tîm cyflogaeth ac fe gafodd 807 o gyfleoedd gwirfoddoli eu cynnal drwy'r cynllun. Roedd chwe unigolyn

a oedd yn cymryd rhan wedi pasio eu prawf gyrru ymarferol, sy'n rhan o'r Rhaglen Llwybr i Waith a oedd yn cael ei ariannu gan Magnox.

- **Cwmni Buddiannau Cymunedol Cemaes:** O'r diwedd, mae Cwmni Buddiannau Cymunedol Cemaes wedi sicrhau perchnogaeth o'r hên gapel ac ar ôl cyflwyno'r prosiect yn raddol, maent yn archwilio llwybrau er mwyn sicrhau arian cyfatebol i fedru symud ymlaen.

- **Ymddiriedolaeth Colofn Ynys Môn:** Mae Magnox wedi ymrwymo £70,000 i'r Ymddiriedolaeth Colofn Ynys Môn er mwyn adfer Colofn y Marcwis sy'n rhestredig Gradd II* fel atyniad i dwristiaid ac er mwyn ailfodelu'r bwthyn fel caffi a chanolfan addysg i ymwelwyr. Os caiff yr holl arian ei sicrhau, nod y prosiect yw agor erbyn mis Medi 2021. Bydd arian Magnox yn mynd tuag at dehongli dwyieuthog o amgulch y safle. Mae'r prosiect yn rhagweld y bydd y caffi a'r ganolfan ymwelwyr yn arwain at greu deg o swyddi newydd, dros 40 o gyfleoedd gwirfoddoli a dau fusnes newydd. Bydd y prosiect yn ymgysylltu hefyd â 26 o ysgolion lleol, Prifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai sy'n cynnig rhaglenni addysgol.

Y llynedd, gwireddwyd dros 50 o gyfleoedd gwirfoddoli. Cefnogodd Magnox Wobrau Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn 2019 a ras Parc Morglawdd Caergybi'r Cybi Striders. Cyflawnwyd dros 1000 o gyfleoedd Hyfforddiant Sgiliau Cymunedol trwy Cymunedau yn Gyntaf Môn a Gŵyl Ysgrifennu 'Môntage' Môn. Cefnogwyd 64 o ysgolion a meithrinfeydd yn ogystal â 23 o weithgareddau chwaraeon, gan gynnwys Clwb Cychod Cemaes, Clwb rhwyfo Moelfre a Chlwb Pêl-droed Bae Cemaes a dderbyniodd arian i brynu cyfarpar newydd.
At ei gilydd, mae'r prosiectau a gafodd gymorth gan Magnox wedi llwyddo i sicrhau £917,441 o arian cyfatebol.

| SAFLE BLAENORIAETH UCHEL – Wylfa |
| --- |
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21:** |
| Dal i weithio gyda Chyngor Môn, Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol o ran ymyriadau economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol ar gyfer Ynys Môn a'r ardaloedd cyfagos. |

## Safleoedd Blaenoriaeth Ganolig

Er bod y safleoedd hyn wedi eu dynodi fel rhai blaenoriaeth ganolig, mae’n bwysig nodi, petai prosiect trawsnewid cadarn yn cael ei gyflwyno i Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox, sy’n bodloni’r meini prawf, yna byddai’n cael ystyriaeth ddyladwy yn ôl teilyngdod, ochr yn ochr â cheisiadau eraill, waeth beth fo blaenoriaeth y safle.

### 4.6. Chapelcross



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
192 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol**
Llywodraeth yr Alban
Cyngor Dumfries a Galloway
Scottish Enterprise
Grŵp Cydlynu ar y Cyd Chapelcross
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Chapelcross (SSG)
Grŵp Llywio Adfywio Annan

**Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2020: £4,395,000**

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £360,886**

**Prosiectau y gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012:**

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2013/14 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2014/15 | Cyngor Dumfries a Galloway | Prif Gynllun Safle Chapelcross | £20,000 |
| | | Is-gyfanswm | £20,000 |
| 2015/16 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2016/17 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2017/18 | Grŵp Treftadaeth Eastriggs a Gretna | Prosiect Treftadaeth Chapelcross yn Amgueddfa Devil's Porridge. | £36,000 |
| | | Is-gyfanswm | £36,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2018/19 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2019/20 | Cyngor Dumfries a Galloway | Cynllun Grant Busnes Bach DG12 ac Annan | £75,000 |
| | | Is-gyfanswm | £75,000 |
| | | **Cyfanswm** | **£131,000** |

**Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2019/20:**

- Mae **Youth Beatz**, digwyddiad di-dâl blynyddol a gynhelir gan Gyngor Dumfries a Galloway, yn dod a budd economaidd sylweddol i'r ardal. Mae'r digwyddiad yn denu dros 12,000 o bobl ifanc ac yn mynd i'r afael â materion fel hunanladdiad a cham-drin alcohol a chyffuriau drwy gerddoriaeth a gweithdai. Cefnogodd Magnox y cynhyrchiad 'Toon' drwy gyfrannu £2,000 tuag at y digwyddiad.

- Derbyniodd **Gyngor Dumfries a Galloway** £75,000 ar gyfer Cynllun Grant DG12 ac Annan. Bydd hyn yn caniatau i fusnesau bach yn yr ardal wneud cais am gymorth hyd at 50% o gostau eu prosiect ac i sefydlu busnesau newydd.

Fe ddaru perfformiadau 'Toon' Youth Beatz wedi arwain at 35 o gyfleoedd hyfforddi i blant a phobl ifanc. Cefnogwyd 10 ysgol a naw o weithgareddau chwareuon yn ogystal a ddigwyddiad blynyddol Riding of the Marches Annan. Crëwyd tri chyfle gwirfoddol a hyfforddi gyda arian ar gyfer Clwb Bocsio Spartans Solway, ynghyd â naw cyfle hyfforddi i hyfforddwyr ar gyfer Clwb Nofio Amatur Annan. Roedd y Royal Burgh of Annan Pipeband, Annan Town Band, Newstart Recycle and Kate's Kitchen wedi elwa o'r arian hefyd.
At ei gilydd, mae'r prosiectau a gafodd gymorth gan Magnox wedi llwyddo i sicrhau £350,107 o arian cyfatebol.

| **SAFLE BLAENORIAETH GANOLIG - Chapelcross** |
|---|
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21:**<br><br>Gweithio gyda Grŵp Cydlynu ar y Cyd Chapelcross, Prosiect CX a Borderlands er mwyn lliniaru effaith colli swyddi yn Chapelcross yn y dyfodol ar yr economi leol. |

## 4.7. Hinkley Point A



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
168 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:**
Cyngor Sir Gwlad yr Haf
Cyngor Gorllewin Gwlad yr Haf
Cyngor Dosbarth Sedgemoor
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Hinkley Point (SSG)
Business West
Nuclear South East

**Cyllid Economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2020: £450,000**

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2020: £286,103**

**Prosiectau y gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012:**

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | Ymddiriedolaeth Addysg Bridgwater | Changing Life Opportunities | £37,550 |
| | Siop Gymunedol Spaxton | Prosiect datblygu | £20,000 |
| | | Is-gyfanswm | £57,550 |
| 2015/16 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2016/17 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | |
| 2017/18 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2018/19 | Clevedon Pier & Heritage Trust | Cam III y Rhaglen Dysgu ac Allgymorth | £20,000 |
| | Onion Collective CIC | Unlocking Watchet's East Quay (cyllid am ddwy flynedd) | £250,000 |
| | | Is-gyfaswm | £270,000 |
| 2019/20 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| | | **Cyfanswm** | **£327,550** |

**Prif brosiectau a chynlluniau 2019/20:**

- **Unlocking Watchet's East Quay:**
  Mae Magnox wedi rhoi £250,000 dros ddwy flynedd i gefnogi'r gwaith o greu'r mannau gwaith creadigol ac mentrus. Mae'r prosiect wedi dechrau a bydd yr ail flwyddyn o gyllid (£120,000) yn cael ei ryddhau pan fydd y cerrig milltir cyntaf wedi'u cyflawni. Fel llawer o brosiectau eraill, mae pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi cael effaith uniongyrchol ar y prosiect.

Cefnogwyd pum cais Cymydog Da, gan gynnwys cyllid ar gyfer uwchdaflunyddion, sgriniau, gasebo a bwrdd. Llwyddodd y prosiectau hyn, ynghyd â rhai eraill, i sicrhau £839 o arian cyfatebol.

| **SAFLE BLAENORIAETH GANOLIG – Hinkley Point A** |
|---|
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21:**<br><br>Cadw llygad ar y cyfleoedd a'r datblygiadau yn yr ardal. |

## 4.8. Winfrith



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
164 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol**
Cyngor Dosbarth Purbeck
Cyngor Sir Dorset
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Winfrith (SSG)
Coleg Bridgwater/Weymouth
Partneriaeth Fenter Leol Dorset (LEP)

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £38,593**

**Prosiectau gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012:**

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | | Dim ceisiadau llwyddiannus | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2017/18 | | Dim ceisiadau llwyddiannus | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2018/19 | | Dim ceisiadau llwyddiannus | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2019/20 | Ymddiriedolaeth Natur Dorset | Rhaglen 3 blynedd hyfforddeiaeth Treftadaeth Gweundir Tadnol a Winfrith (bydd tri unigolyn yn cael blwyddyn o hyfforddiant addysgol ac ymarferol ar reoli gweundir). | £22,500 |
| | | Is-gyfanswm | £22,500 |
| | | **Cyfanswm** | **£22,500** |

- Llwyddodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dorset i sicrhau £22,500 o gyllid gan Magnox dros 3 blynedd i gynnig rhaglenni hyfforddi blwyddyn o hyd ar gyfer 3 unigolyn lleol (un y flwyddyn); roedd hyn ar y cyd â Chyngor Dorset, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dorset a Silverlake (blwyddyn 1); Cyngor Plwyf Winfrith (blynyddoedd 2 a 3) gyda Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dorset yn darparu dysgu a chymwysterau safonol AQA academaidd ynghyd â chyfarwyddiadau ymarferol i gefnogi hyfforddiant ymarferol achrededig dros gyfnod y rhaglen. Mae'r pecyn yn rhoi cyfoeth o wybodaeth i'r unigolion, a phrofiad â sgiliau trosglwyddadwy uchel eu bri.

Cafwyd pedwar cais llwyddiannus Cymydog Da gyda set cyrlio dan do, gasebos a darpariaeth Chymorth Cyntaf, pecyn pêl-droed newydd a Chadair Godi yn ogystal a hyfforddiant ar gyfer Ymatebwyr Cyntaf yn cael eu cefnogi. Llwyddodd y prosiectau hyn i sicrhau £24,993 o arian cyfatebol.

| **SAFLE BLAENORIAETH GANOLIG – Winfrith** |
|---|
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21:**<br>Cadw llygad o'r datblygiadau a'r cyfleoedd yn yr ardal. |

## Safleoedd Blaenoriaeth Isel

| **SAFLEOEDD BLAENORIAETH ISEL**<br><br>**Berkeley, Harwell, Oldbury a Sizewell** |
|---|
| **Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2020/21:**<br>Mae safleoedd blaenoriaeth isel fel arfer yn cael eu cefnogi ar lefel Cymydog Da (ceisiadau hyd at £1,000), ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i hyn ac mae cyllid wedi ei ddarparu yn y blynyddoedd diwethaf i nifer o geisiadau mwy sylweddol.<br>Mae'r canlynol yn crynhoi'r gefnogaeth honno.<br>Bydd bob cais yn dal i gael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod unigol ac i ba raddau y maent |

yn bodloni meini prawf economaidd-gymdeithasol Magnox.

Cadw llygad o'r datblygiadau a'r cyfleoedd yn yr ardal.

## 4.9. Berkeley



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
132 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:**
Cyngor Sir Swydd Gaerloyw
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Berkeley(SSG)
Business West

**Cyllid Economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2020: £206,782**

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £111,485**

**Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2019/20:**

Roedd y swm o £7,274 o gyllid Magnox yn cynnwys 13 cais Cymydog Da llwyddiannus yn cefnogi sefydliadau lleol i ariannu pethau fel system sain newydd, cadeiriau newydd, barbeciw ar gyfer sefydliad cymunedol lleol, cegin fwd ar gyfer cylch chwarae, hysbysfyrddau eglwys a chyfarpar Clwb STEM, i enwi dim ond rhai. At ei gilydd, llwyddodd y ceisiadau i sicrhau £10,000 o arian cyfatebol.

## 4.10. Harwell



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
240 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:**
Cyngor Sir Swydd Rydychen
Cyngor Dosbarth Vale of White Horse
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Harwell (SSG)

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £31,638**

**Prif brosiectau a chynlluniau 2019/20**

- Mae Campws Arloesi a Gwyddoniaeth Harwell, a sefydlwyd yn 2007 yn parhau i ehangu; gyda dros 6,000 o bobl yn gweithio mewn mwy na 200 o sefydliadau.

Canolbwyntir ar feysydd masnachol amrywiol gan gynnwys gofal iechyd, dyfeisiau meddygol, y gofod, systemau canfod, cyfrifiadura, mentrau gwyrdd a deunyddiau newydd.

- Mae tua chwarter Safle Trwyddedig Harwell wedi cael ei ddad-drwyddedu. Mae ailddatblygiad sylweddol wedi digwydd ar y tir a ryddhawyd ers 2015 sy'n cynnwys: adeiladu seilwaith newydd, nifer o adeiladau newydd, ac adnewyddu adeiladau presennol.

- Mae'r Campws yn rhan o Barth Menter Science Vale sy'n cynnwys Campws Harwell, Canolfan Wyddoniaeth Culham a Milton Park. Cydnabyddir hyn fel parth cyflogaeth mawr yng Nghynllun Lleol Strategol Vale of White Horse.

Mae llawer o sefydliadau wedi elwa o'r £6,062 o gefnogaeth Cymydog Da a fyddsoddir, gan gynnwys diwrnod Hwyl i'r Teulu, cyfarpar gweithgaredd i blant a cyfarpar cegin a dodrefn. Llwyddodd y cymorth hwn i sicrhau £34,800 o arian cyfatebol.

## 4.11. Oldbury



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
Canolfan Dechnegol Oldbury 235 o Staff Magnox
Safle Oldbury 123 o Staff Magnox
**Cyfanswm o 358 o staff Magnox**

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:**
Cyngor De Swydd Gaerloyw
Business West
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Oldbury (SSG)

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £177,923**

**Prosiectau gafodd dros £10,000 yr un o gyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox ers 2012:**

| Blwyddyn Ariannol | Sefydliad | Prosiect | Cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | Clwb Pêl-fasged Bristol Storm | Storming the Streets | £15,000 |
| | | Is-gyfanswm | £15,000 |
| 2015/16 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2016/17 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2017/18 | | Dim ceisiadau | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| 2018/19 | Envision | Prentis Cymunedol (prosiect tair blynedd) | 90,000 |
| | | Is-gyfanswm | 90,000 |
| 2019/20 | | Dim ceisiadau | £0 |
| | | Is-gyfanswm | £0 |
| | | **Cyfanswm** | **£105,000** |

**Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2019/20:**

- **Envision:** Dyma ail flwyddyn rhaglen fentora tair blynedd lle mae Magnox wedi buddsoddi £30,000 y flwyddyn i gefnogi'r prosiect gwerthfawr a gwerth chweil hwn. Mae'n ymgysylltu â phum ysgol leol i gefnogi myfyrwur o dan anfantais - gydag aelodau o staff Oldbury yn cefnogi Ysgol Brimsham Green yn benodol fel mentoriaid. Mae'r mentoriaid a'r rhai sydd yn cael eu mentora yn elwa o'r rhaglen hon lle mae'n rhaid iddynt weithio fel tîm a dysgu sut mae cyfathrebu ar bob lefel er mwyn eu helpu gyda'u sgiliau bywyd. Dywedodd Rachel, un o'r myfyrwyr: "Wrth baratoi ar gyfer yr Her Cyflwyno fe wnaethon ni ddal ati hyd yn oed pan roedd yn anodd. Roedd rhai aelodau o'r tîm yn ei chael hi'n anodd siarad o flaen llawer o fobl ond rydym yn annog ac yn helpu ein gilydd." Mae hwn yn brosiect arall y mae Covid-19 wedi cael effaith arno, ond mae pawb wedi gweithio'n galed i gyflawni'r canlyniad hyd gorau eu gallu dan amgylchiadau anodd. Mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu datblygu ar gyfer y carfannau sy'n weddill.

Yma roedd 10 cais Cymydog Da llwyddiannus yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau, er enghraifft gwenynfa, darpary cerddoriaeth ddalen, pecynnau pêl-droed, cyfarpar chwarae ar gyfer ysgol, pabell ac offer acwstig. Bydd y darpariaeth yma ar gael i'r sefydliadau wrth iddynt wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol pan fo hynny'n briodol.

## 4.12. Sizewell A



**Nifer y gweithlu** (o fis Ebrill 2020 ymlaen):
187 o staff Magnox

**Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:**
Cyngor Sir Suffolk
Cyngor Dwyrain Suffolk
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Sizewell (SSG)

**Cyllid Economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2020: £236,791**
Llwyddodd Saxmundham Art Station i gael cyllid uniongyrchol o £87,000 (dros ddwy flynedd) gan yr NDA - tuag at gost adnewyddu'r goleuadau a'r gwres ar lawr cyntaf hen adeilad Swyddfa'r Post. Mae'r prosiect hefyd yn talu am gostau dau reolwr prosiect rhan-amser – un

ar gyfer y gwaith corfforol a'r llall i ganolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y bydd y prosiect hwn yn eu gynnig i'r dref yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

**Gwerth cronnus cyllid Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012-20: £252,754**

**Prif brosiectau a chynlluniau 2019/20**

- **Amgueddfa Long Shop Leiston:** Denodd y prosiect yma £189,800 o gyllid Magnox dros dair blynedd fel rhan o gynllun hanner miliwn o bunnoedd i uwchraddio’r amgueddfa o ran dehongliadau ac arteffactau, yn ogystal â chynnal a chadw a datblygu’r hen waith Garret sydd â chysylltiad lleol cryf iawn, ac sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.
  Yn anffodus, mae’r amgueddfa wedi bod ar gau ers dechrau’r tymor ymwelwyr, ac mae staff wedi bod ar y cynllun ffyrlo. Fodd bynnag, gydag arian uniongyrchol gan Magnox ar gyfer y swydd Datblygu Addysg a gwaith lleoliad hyfforddai mewn partneriaeth â rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol NLHF, mae cynlluniau’n dal i gael eu gwneud a phrosiectau’n cael eu datblygu’n barod ar gyfer y diwrnod lle gall Amgueddfa Long Shop agor ei gatiau unwaith eto. Maen nhw hefyd yn paratoi ar gyfer rhaglen o ddigwyddiadau yn hwyrach ymlaen yn ystod y tymor, pe byddai’r cyfle yn codi. Mae’r gwirfoddolwyr hefyd yn edrych ymlaen at gael dychwelyd.
  Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y dyluniad ar gyfer y gegin a’r lle bwyta newydd, a’r gobaith yw y gall y gwaith ddechrau arnynt yn fuan. Cyn y pandemig, roedd sawl tîm gwirfoddol gwahanol yn paratoi ar gyfer tymor 2020. Un prosiect arbennig o ddiddorol sydd ar y gweill yw adfer Buick 1934 a ddefnyddiwyd gan Garrett’s i fynd a ymwelwyr pwysig o gwmpas y safle; yn ogystal mae adnewyddu peiriannau stêm mwy traddodiadol a llawer mwy yn dal yn yr arfaeth.

- Mae **Cyngor Dwyrain Suffolk** wedi cael £10,700 gan Magnox ar gyfer dau brosiect yn yr ardal. Y cyntaf yw helpu i ddatblygu Sector Bwyd a Diod Dwyrain Suffolk (digwyddiad Bwyd a Diod £4,700 ynghyd â chyngor busnes), a’r llall ar gyfer Cymdeithas Fusnes Dwyrain Suffolk a Rhaglen Gymorth Grŵp Tref (£6,000 i gynnwys cymorth busnes amrywiol trwy gydweithredu a hyfforddiant). Er nad yw hi wedi bod yn bosib cynnal y digwyddiadau hyn, mae’r prosiectau yn parhau i fod ar gael i roi cymorth i'r gwahanol sectorau pan fydd y cyfnod clo yn dechrau llacio.

Roedd dau gais Cymydog Da yma ar gyfer pecyn a chyfarpar pêl-droed o dan 12 a medalau ar gyfer Cystadleuaeth Pêl-droed blwyddyn 7. At ei gilydd, mae ceisiadau llwyddiannus Magnox wedi sicrhau £19,600 o arian cyfatebol.

## 5. Cyflyrau Interim/Gofal a Chynnal a Chadw

Yn unol â strategaeth yr NDA, bydd priodoldeb, argaeledd a lefel y cymorth economaidd-gymdeithasol i safleoedd wrth iddynt gyrraedd eu Cyflwr Cyfamser yn cael eu cytuno fesul achos unigol ac yn cael eu trafod gyda'r NDA a rhanddeiliaid.

Bydd y cymorth economaidd-gymdeithasol a'r trefniadau wrth i safleoedd agosau at eu Cyflwr Cyfamser yn cael eu hasesu a byddant:

- Yn ystyried ardal leol pob safle, amserlenni tuag at segurdod
- Yn nodi'r pwynt lle byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Yn disgrifio'r opsiynau ac yn nodi pa gymorth fydd ar gael , neu ddim mwyach.

## 6. Cadw Golwg a Cofnodi

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Economaidd-gymdeithasol, cytunwyd ar fesurau perfformiad a threfniadau adrodd priodol gyda'r NDA er mwyn olrhain cynnydd tuag at yr amcanion a'r targedau â amlinellwyd yn y Cynllun Economaidd-gymdeithasol 2019/20.

Bydd y Cynllun Economaidd-gymdeithasol yn cael ei adolygu bob blwyddyn, a bydd targedau newydd yn cael eu gosod fel a lle bo'n briodol.

## 7. Cynnydd yn erbyn y targedau yn 2019/20

### 7.1. Cyflogaeth – gan ffafrio creu swyddi gwerth uwch

- Rydym yn parhau i hysbysebu yn fewnol ar gyfer y swyddi sydd ar gael yn ystâd ehangach yr NDA drwy'r tudalennau swyddi gwag ar y Fewnrwyd, a hefyd yn anfon swyddi gwag grŵp yr NDA at ein contractwr cyflogaeth er mwyn i'w hyfforddwyr eu rhannu â chyn-weithwyr Magnox gallant fod yn eu cefnogi.
- Mae Magnox wedi ymgysylltu'n genedlaethol ac yn lleol er mwyn cunnig swyddi prentisiaid ar gyfer 2020 (tua 30 o brentisiaid).

### 7.2. Addysg/sgiliau - i gefnogi datgomisiynu a glanhau ac arallgyfeirio i sectorau eraill

- Mae'r Rhaglen Rheoli Talent yn parhau, ac fe nodwyd dwy garfan dalent ychwanegol yn 2019 ac maent yn cael eu hadolygu gan y Byrddau Talent.
- Mae darparwr gwasanaeth yn ei le mwyn darparu holl hyfforddiant allanol angenreidiol, gan alluogi meincnodi ac cyfochri ac arfer gorau ar draws Magnox.
- Mae gan Magnox fwy na 50 llysgennad STEM yn ychwanegol at y graddedigion a'r cyn-raddedigion sydd hefyd yn llysgenhadon gweithredol. Edrychir ar strategaeth â mwy o ffocws yn y tymor agos yn unol â'r galw cynyddol am brentisiaid ym Magnox.

## 7.3. Seilwaith economaidd a chymdeithasol – gan gynnwys adfer a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol a naturiol

- Mae Magnox yn dal i fynd i amrywiaeth eang o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol a sefydliadau datblygu, ei hun ac ar y cyd â'r NDA
- Rydym wedi parhau i weithio gyda'r NDA a darparwyr rhanbarthol ar nifer o gynlluniau mawr, gan gynnwys rhaglen ynni tonnau a llanw Ynys Môn, Mentor Môn Morlais, a Watchet a chanolfan awyr agored y Bartneriaeth Awyr Agored yn Eryri. Mae rhagor o fanylion ar gael ar y tudalennau penodol i'r safleoedd yn yr adroddiad hwn. Rhoddodd Magnox gymorth i 113 o geisiadau i'r cynllun economaidd-gymdeithasol yn ystod y flwyddyn, gan ryddhau gwerth £1,012,536 o gyllid – gweler y tudalennau penodol i safle am fanylion
- Rhoddir sylw i lefelau'r arian cyfatebol a'r manteision economaidd-gymdeithasol a gafwyd ar dudalennau unigol y safleoedd. Yn ystod 2019/20, am bob £1 a fuddsoddwyd gan Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox, cafodd £3.77 ei sicrhau o ffynonellau eraill.

## 7.4. Annog arallgyfeirio – i ddiwydiannau a sectorau eraill, gan gynnwys cefnogaeth i'r gadwyn gyflenwi leol

- Mae gwaith yn parhau ar y rhaglen drawsnewid y gadwyn gyflenwi. Mae cyfleoedd contract mwy yn cael eu hysbysebu ar CTM Rheoli Tendr Cyflawn – sef porth tendro ar-lein. Mae tudalen cyflenwr Magnox bellach yn ymddangos ar wefan llywodraeth yr NDA.
- Adroddiadau chwarterol am werth a chanran gwariant y gadwyn gyflenwi gyda busnesau bach a chanolig. Ar ddiwedd 2019/20, mae ffigurau'n dangos bod 31 y cant o'r gwariant yn uniongyrchol/anuniongyrchol gyda busnesau bach a chanolig.

## 7.5. Targedau ar gyfer y dyfodol

Bydd targedau ar gyfer y dyfodol yn cael eu cytuno a'u gosod ar y cyd â'r NDA pan fyddwn yn deall effaith y sefyllfa bresennol yn well a phan fydd cynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol wedieu datblygu.